national wool museum amgueddfa wlân cymru

cyfleoedd i ysgolion
2011-2012

national museum wales amgueddfa cymru

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

dod â dysgu'n fyw

Dewch i archwilio stori diwydiant gwlân Cymru yn Amgueddfa Wlân Cymru.

Mae arddangosiadau'r Amgueddfa'n adrodd stori'r diwydiant gwlân drwy beirianwaith sy'n gweithio; deunydd o'r archifau; arddangosiadau ymarferol, cyffrous a'r oriel decstilau. Mae cyfleusterau'n cynnwys Ystafell Addysg, yr Ystordy Ymchwil; ystafell gotiau; siop a mynediad i bobl anabl i'r Amgueddfa. Gall hyd yn oed ein hymwelwyr lleiaf brofi awyrgylch ffatri go iawn yn ddiogel yn y felin sydd ar waith.

SANDFORD AWARD

Gwobr Sandford am ragoriaeth mewn addysg dreftadaeth

Mae gan bob un o'n rhaglenni apêl **ar draws y cwricwlwm** ac fe'u crëwyd â gofynion y **Cwricwlwm Cymreig** a'r **Cwricwlwm Cenedlaethol** mewn golwg. Bydd ein sesiynau'n canolbwyntio ar **hanes, daearyddiaeth, gwyddoniaeth, celf, dylunio** a **thechnoleg** a datblygu **sgiliau allweddo**l y disgybl.

Os ydych yn astudio'r **diwydiant gwlân, y Chwyldro Diwydiannol, dillad, deunyddiau a'u nodweddion, pobl a gwaith yn y gorffennol** neu'r **ardal leol**, bydd gan yr Amgueddfa Wlân Genedlaethol rywbeth i'w gynnig i chi. Bydd ein tecstilau'n ysbrydoli eich projectau **gwehyddu** neu lliwiau a **phatrymau**.

Argymhellwn eich bod yn trefnu sesiwn dan arweiniad ar gyfer eich ymweliad. Mae nifer o sesiynau ar gael gan ddibynnu ar faint eich grŵp a'r amser y dymunwch ei dreulio yn yr Amgueddfa. Cysylltwch â'r Swyddog Addysg i drafod eich gofynion unigol.

Cynigir mynediad AM DDIM diolch i gefnogaeth Llywodraeth Cymru

y cyfnod sylfaen a CA2

Sesiwn Gwyddoniaeth

Tymor y gwanwyn yn unig

I gefnogi eich gweithgareddau ar gyfer wythnos gwyddoniaeth – dilynwch sesiwn gwyddoniaeth / technoleg o arbrofion llawn hwyl, i archwilio priodoleddau gwlan ac ynni naturiol.
Hyd: 1 awr **Nifer:** mwyafswm y grŵp yw 2

Sesiynau gyda hwylusydd ar gael trwy'r tymor

O ddafad i ddefnydd

Dilynwch y broses draddodiadol o wneud tecstilau o'r cnu i'r brethyn. Cewch ddysgu am gynhyrchu brethyn ar raddfa fawr a chymharu hynny â'r prosesau llaw. Bydd arddangosiadau o beirianwaith sydd ar waith ac ystod o weithgareddau trin a thrafod gyda'ch crefftwr personol.

Gwyrthiau gwlân

Archwiliwch nodweddion a chynnyrch gwlân mewn sesiwn yn Oriel Decstilau'r Amgueddfa. Trafodwch pam mai gwlân yw'r deunydd gorau at y pwrpas wrth i chi drio'r dillad ymlaen, archwilio patrymau a thrin a thrafod y casgliadau – o'r wisg draddodiadol Gymreig a charthenni i ffasiynau heddiw.

Hyd: 1 awr
Nifer: dim mwy na 25 mewn grŵp

Y diwydiant gwlân ac Oes Fictoria

Trawsnewidiodd y Chwyldro Diwydiannol olwg a chyflymdra proses cynhyrchu gwlân yng Nghymru. Archwiliwch y ffactorau y tu ôl i'r diwydiant gwlân yn ardal Dre-fach Felindre. Bydd y sesiwn yn cynnwys sioe sleidiau, trafodaeth grŵp a gweithgareddau wedi'u seilio ar y cwricwlwm.

Gweithdai crefft

Gallwn ni hefyd ddarparu amrywiaeth o weithdai crefft gan gynnwys gwehyddu a gwneud ffelt. Gall eich disgyblion fod yn greadigol a darganfod byd diddorol cynhyrchu tecstilau a dylunio.

Sesiynau ategol

1. Llwybr yr Amgueddfa

Bydd taith dywys o gwmpas yr Amgueddfa yn ategu addysg y disgyblion wrth iddynt weld y datblygiad o'r cartref i'r peiriannau diwydiannol a chlywed hanesion y bobl a fu'n byw a gweithio yn y gymuned leol.
Hyd: 45 munud.

2. Llwybr y Pentref

Bydd y llwybr o gwmpas y pentref yn dod â'r Chwyldro Diwydiannol yn fyw wrth i chi ddarganfod safleoedd yr hen ffatrïoedd; cymharu tai perchnogion y melinau â thai'r gweithwyr; a gweld twf y pentref drwy ei eglwysi, ei gapeli, ei siopau a'i neuadd gymunedol. **Hyd:** 45 munud.

i'r athrawon

Gweithgareddau dan arweiniad athro

Yr Ystordy Ymchwil: Ystafell Addysg Ymarferol

Yn yr adnodd addysgiadol ardderchog hwn mae casgliad trin a thrafod yr Amgueddfa a gwybodaeth ar ffyrdd y gellir ei archwilio. Gyda'r pwyslais ar Sgiliau Allweddol, gall gweithgareddau gael eu cynnal yn yr Ystordy Ymchwil ac yn yr Amgueddfa. Mae'n ffordd ddelfrydol i athro arwain ei amser ei hun yn yr Amgueddfa. Os hoffech ddefnyddio'r Ystordy trefnwch gyda'r Swyddog Addysg i ymweld â'r Amgueddfa ymlaen llaw.

Llwybr Tecstilau

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r artist proffesiynol Julia Griffiths Jones wedi creu pum darn o waith mewn ymateb i gasgliad yr Amgueddfa. Maen nhw i'w gweld o gwmpas yr Amgueddfa ac mae gweithgaredd yn gysylltiedig â phob un ar gyfer y plant. Mae gwaith Julia yn cynnig ymateb cyfoes a phersonol i'r casgliad ac mae'r Llwybr Tecstilau yn gyfle i ddisgyblion ymateb yn greadigol i'r Amgueddfa. Am fwy o wybodaeth am ei gwaith a'i gweithgareddau cysylltwch â'r Swyddog Addysg.

Cyfleoedd datblygu proffesiynol i athrawon

Technegau Tecstilau

Gellir cynnig y cwrs undydd hwn fel diwrnod HMS ysgol gyfan neu ar gyfer grŵp o athrawon tecstilau/celf/crefft. Mae'r sesiwn ymarferol yn archwilio technegau tecstilau fel ffeltio, defnyddio cwyr, gwehyddu a chwiltio. Yn seiliedig ar ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r Cwricwlwm Cymreig, mae'r cwrs ar gael ar gyfer rhwng 5 a 15 o athrawon a gellir ei gynnal yn yr Amgueddfa neu yn eich ysgol. Codir cost o £50 os cynhelir y cwrs yn yr ysgol, a chyfraniad fesul person ar gyfer deunyddiau.

Cael y gorau o'ch ymweliad â'r Amgueddfa Wlân Genedlaethol

Dewch i ymweld â'r Amgueddfa am y diwrnod i archwilio'r posibiliadau thematig. Bydd y sesiwn yn cynnwys taith dywys o gwmpas yr Amgueddfa a'i hadnoddau addysg, a blas ar y sesiynau i ysgolion. Mae hefyd yn cynnwys cyfle i gynnig adborth a chyfrannu at ddarpariaeth yr Amgueddfa yn y dyfodol. Bydd rhaid cael o leiaf 5 athro mewn grŵp i gynnal y cwrs. I drefnu dyddiad ar gyfer grŵp, neu i gael gwybod am le i unigolyn, cysylltwch â'r Amgueddfa.

archebu eich lle

Gofynnwn i bob ysgol drefnu ei hymweliad ymlaen llaw. Am fwy o wybodaeth, neu os ydych am drafod ffyrdd eraill o ddefnyddio'r Amgueddfa neu am drefnu ymweliad, cysylltwch â'r Swyddog Addysg ar **(01559) 370929**. Ar ôl i chi drefnu ymweliad, anfonwn gadarnhad ysgrifenedig atoch fydd yn cynnwys gwybodaeth am eich ymweliad.

Cofiwch bod siop yn yr Amgueddfa ac y gallwch drefnu bod cinio yn cael ei baratoi i'ch grŵp gan y caffi am bris o £2.60 y pen. Os oes diddordeb gan eich grŵp mewn ymweld â'r siop neu'r caffi, rhowch wybod i ni pan yn archebu eich lle.

Mae gwybodaeth am iechyd a diogelwch a fydd o gymorth i chi wrth lenwi eich asesiad risg yn **www.amgueddfacymru.ac.uk/cy/addysg/wlân.**

Cofiwch ein bod ar gau bob dydd Llun o 1 Hydref-31 Mawrth.

Ble ydyn ni?

Amgueddfa Wlân Cymru, Dre-fach Felindre, ger Castellnewydd Emlyn, Sir Gâr SA44 5UP
Ffôn: **(01559) 370929**

Mae'r Amgueddfa 16 milltir i'r gorllewin o Gaerfyrddin oddi ar yr A484 a 4 milltir i'r dwyrain o Gastellnewydd Emlyn.

I gael fersiwn print bras o'r daflen hon, ffoniwch (029) 2057 3149.